**Pwyllgor yr Economi, Masnach a Materion Gwledig**
—
**Economy, Trade, and Rural Affairs Committee**

**Senedd Cymru**
Bae Caerdydd, Caerdydd, CF99 1SN
SeneddEconomi@senedd.cymru
senedd.cymru/SeneddEconomi
0300 200 6565
—
**Welsh Parliament**
Cardiff Bay, Cardiff, CF99 1SN
SeneddEconomy@senedd.wales
senedd.wales/SeneddEconomy
0300 200 6565

Sarah Simmonds
Cyfarwyddwr y Gweithlu a Datblygu Sefydliadol
Bwrdd Iechyd Prifysgol Aneurin Bevan

28 Tachwedd 2024

Annwyl Sarah,

**Llythyr yn dilyn y cyfarfod ar 14 Tachwedd 2024**

Diolch am roi tystiolaeth i'n hymchwiliad i'r Economi Sylfaenol ar 14 Tachwedd. Roedd y sesiwn yn un ddiddorol ac roedd yn ddefnyddiol iawn i'r Aelodau.

Wrth ystyried y sesiwn dystiolaeth a'r drafodaeth ddilynol, nododd yr Aelodau un maes o ddiddordeb y byddent yn gwerthfawrogi cael rhagor o fanylion yn ei gylch, os oes modd.

Dyma ofyn, felly, a allech chi ddarparu unrhyw ddata yr ydych eisoes yn eu casglu ar gyfradd cyflogaeth pobl ag anableddau ar gyfer y rhai sydd wedi ymuno â'r gweithlu. Byddai data o'r fath yn galluogi'r Pwyllgor i ddeall yn llawn sut mae eich dull ar gyfer yr economi sylfaenol yn effeithio ar bob unigolyn. Byddem yn arbennig o awyddus i weld unrhyw ddata sy'n ymwneud â'r rhai a recriwtiwyd drwy fentrau 'tyfu eich gweithlu eich hun' y byrddau iechyd.

Os yn bosibl, byddwn yn ddiolchgar o gael ymateb ysgrifenedig gennych inni i'r cais hwn erbyn 20 Rhagfyr.

Diolch eto am roi o'ch amser ac am eich cymorth gyda'r ymchwiliad hwn.

Cofion cynnes,

Paul Davies AS
Cadeirydd: Pwyllgor yr Economi, Masnach a Materion Gwledig

Croesewir gohebiaeth yn Gymraeg neu Saesneg